**Datganiad Diogelu Data Gweithgareddau Cyffredinol yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd**

Crynodeb

1. Y mae Prifysgol Aberystwyth yn rheolwr data yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998 a hefyd yn unol â deddfwriaeth diogelu data pellach a ddaw i rym yn 2018.

2. Cynrychiolydd enwebedig y Brifysgol yw'r:
Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredol)
Swyddfa'r Is-Ganghellor
Prifysgol Aberystwyth
Y Ganolfan Ddelweddu
Campws Penglais
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3BF

3. Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd angen derbyn ac, o bryd i'w gilydd, prosesu gwybodaeth bersonol yn ymwneud ag unigolion fel bod modd iddo gynorthwyo'r Athrofeydd a'r Adrannau Gwasanaeth Proffesiynol i ddarparu amgylcheddau gweithio a dysgu priodol ar gyfer eu staff a'u myfyrwyr, yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974. O ganlyniad, y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hwn ar gyfer aelodau staff a myfyrwyr yw fel rhwymedigaeth gyfreithiol.

4. Gall y mathau o wybodaeth a/neu'r prosesau dan sylw gynnwys (ond efallai na fyddant yn gyfyngedig i) asesiadau risg ac iechyd galwedigaethol a gwybodaeth feddygol fel rhan o'r broses asesu a rheoli.

5. Nid yw'r wybodaeth a gesglir at y diben hwn wedi'i diffinio fel gwybodaeth sensitif o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol bob amser. Fodd bynnag, yn dibynnu ar amgylchiadau penodol yr ymholiad, mae'n bosib y bydd angen datgelu gwybodaeth sensitif.

Manylion

6. Mae'n bosib y bydd angen data personol unigolion i helpu wrth ddarparu cyngor yn ymwneud ag amgylchiadau penodol yr unigolyn. Darperir hyn gan yr unigolyn a/neu ei Athrofa/Adran a gallai gynnwys manylion megis enw, adran, manylion cyswllt a manylion meddygol. Bydd angen darparu'r wybodaeth hon i alluogi'r Brifysgol i arfer ei dyletswydd gofal cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles yr holl staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

7. Gall y mathau o ddogfennau a brosesir a allai gynnwys gwybodaeth sensitif gynnwys, ond efallai na fyddant yn gyfyngedig i:
    - Asesiadau Risg sy'n cynnwys gwybodaeth feddygol;
    - Asesiadau Risg ar gyfer mamau newydd neu sy'n disgwyl;
    - Cynlluniau Personol Gadael Mewn Argyfwng;

- Monitro a chofnodion iechyd galwedigaethol aelodau o staff;
- Asesiadau Offer Sgrin Arddangos.

8. O bryd i'w gilydd, bydd angen rhannu gwybodaeth ag Athrofa neu Adran yr unigolyn, er enghraifft er mwyn prynu offer ychwanegol a/neu i hwyluso newidiadau i weithgareddau gwaith yr unigolyn. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosib y bydd angen caniatâd llafar yr unigolyn.

9. Caiff data ei storio yn ddiogel ar weinyddion y Brifysgol. Bydd y cyfnod cadw yn amrywio yn dibynnu ar natur y wybodaeth, ac yn unol â pholisi cadw'r Brifysgol.

10. Bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd, o dan rai amgylchiadau, yn datgelu peth o'r wybodaeth a ddarperir i drydydd partïon. Bydd hyn yn cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), pan fydd y digwyddiad yn arwain at ddamweiniau difrifol yn y gweithle, afiechydon galwedigaethol a digwyddiadau peryglus penodol, yn unol â Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) 2013.

11. Mae'n bosib y bydd gwybodaeth hefyd yn cael ei rhannu, o bryd i'w gilydd, ag yswirwyr a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol y Brifysgol mewn achosion lle y gallai achos cyfreithiol godi o ganlyniad i anaf personol neu afiechydon galwedigaethol. Ni fydd data personol a ddefnyddir at y diben hwn yn cael ei rannu â sefydliadau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Gwybodaeth bellach

12. Fel gwrthrych data, mae gennych ystod o hawliau mewn perthynas â'r data y mae'r Brifysgol yn ei gadw amdanoch chi. Am ragor o wybodaeth, gweler: https://www.aber.ac.uk/en/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/

13. Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach ynglŷn â'r wybodaeth uchod, cysylltwch â'r Rheolwr Diogelu Data a Hawlfraint, Dr Jonathan Davies, ar infocompliance@aber.ac.uk.